Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD GWENER, 12FED MEHEFIN, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gmail.com**

## IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

### Aelodau a phleidlais

### Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |
| Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

### Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

| | |
|---|---|
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |
| Yr Athro Joe Yates | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Aled Jones-Griffith | Grŵp Llandrillo Menai |
| David Roberts | Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |
| Edgar Wyn Owen | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Dave Penrith | Ymgynghorydd Anrweithredol |

### Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dafydd Gibabrd | Cyngor Gwynedd |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Helen White | Cyngor Sir Ddinbych |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Alwyn Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

### Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y CBC |
| Mark Watkins | Swyddog Monitro |
| Helen Edwards | Dirprwy Monitro |
| Dewi Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Hedd Vaughan-Evans | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 4 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Mai 2026 fel rhai cywir.

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Er bod diddordeb y cyhoedd mewn tryloywder ac atebolrwydd, mae hyn yn cael ei orbwyso ar hyn o bryd gan yr angen i ddiogelu gwybodaeth fasnachol sensitif o ystyried y byddai datgelu yn debygol o ragfarnu trafodaethau parhaus a gallu'r awdurdod i sicrhau'r gwerth gorau a diogelu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

## 6. YSGOL FUSNES ALBERT GUBAY, PRIFYSGOL BANGOR, ACHOS BUSNES LLAWN

David Mthews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo, i gyflwyno’r adroddiad.

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**
**15/05/2026**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Jason Mclellan (Cyngor Sir Ddinbych) (Is-gadeirydd).

Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn).

**Aelodau Cyfetholedig:** Yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor), David Roberts (Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol), Edgar Wyn Owen (Parc Cenedlaethol Eryri) a Dave Penrith (Ymgynghorydd Anweithredol).

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), David Fitzsimon (Cyngor Sir y Fflint) ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Hedd Vaughan Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd), Mark Watkins (Swyddog Monitro), Elliw Alaw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Iain Taylor (IMT Consulting), Ffion Williams (Uwch Swyddog Gweithrediadau) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Sylwedyddion**: Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Llywodraeth y DU).

**Eraill a wahoddwyd:**
**Eitem 11:** Martin James Jardine (Grŵp Llandrillo Menai)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda'r Athro Paul Spencer yn dirprwyo.
- Yana Williams (Coleg Cambria)
- Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo
- Helen White 9Cyngor Sir y Fflint)
- Neal Cockerton (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda David Fitzsimon yn dirprwyo
- Dewi Morgan (Cyngor Gwynedd)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) ar gyfer Eitem 5, gan ei fod yn aelod o Fwrdd 'Menter Môn' yn rhinwedd ei rôl fel Arweinydd y Cyngor, a bod prosiect Hwb hydrogen Caergybi yn cael ei drafod o fewn yr adroddiad. Nodwyd nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) ar gyfer Eitem 12 parthed trafodaeth ar Achos Cyfiawnhad Busnes: Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn. Ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ac ni fu iddo bleidleisio ar y penderfyniadau hyn.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2026 fel rhai cywir.

**5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 4**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio

**PENDERFYNIAD**

1. **Nodi Adroddiad perfformiad Chwarter 4 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.**

2. **Cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd ar nifer o uchafbwyntiau a gyflawnwyd o fewn y chwarter hwn, megis cymeradwyaeth tair o Achosion Busnes Amlinellol, Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect EGNI, yn ogystal â sawl Cais am Newid. Ymfalchïwyd bod digwyddiad cychwynnol wedi ei gynnal ar gyfer prosiect Defaid Llaeth Cymru yn ogystal â chyfarfod y panel buddsoddi cyntaf y Gronfa Ynni Glân ble cymeradwywyd prosiectau cyntaf ar gyfer y gronfa honno.

Mynegwyd balchder bod 161 o swyddi wedi cael eu creu hyd yma gan egluro bod 63 o'r rhain yn sywddi newydd a 58 ohonynt yn swyddi adeiladwaith. Nodwyd bod y niferoedd hyn ychydig yn uwch na'r hyn a ragdybiwyd. Eglurwyd bod yr Aelodau wedi debryn gwybodaeth ychwanegol am ddata swyddi y tu hwnt i ddogfennaeth y cyfarfod hwn, gan egluro bydd y wybodaeth yma yn cael ei rannu yn gyhoeddus pan bydd niferoedd swyddi yn cynyddu. Cydnabuwyd nad oes modd eu rhannu yn gyhoeddus ar hyn o bryd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw unigolyn yn gallu cael eu hadnabod o'r wybodaeth.

Cadarnhawyd bod y buddsoddiad i'r Cynllun Twf bellach yn £30,652,413.01 gan nodi bod y cyfanswm buddsoddi bellach dros £34.2miliwn, ac adroddwyd bod hyn yn cyfarch targedau buddsoddi ar gyfer y flwyddyn. Ymhelaethwyd bod y prosiectau bellach wedi diogelu dros £7miliwn o gyllideb refeniw.

Eglurwyd bod 7 prosiect bellach yn weithredol, gan gydnabod bod hyn yn llai na'r nifer o brosiectau a ddisgwyliwyd i fod yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn. Nodwyd bod oedi wedi bod ar rhai prosiectau megis Parc Bryn Cegin. Ymhelaethwyd bod rhai cynlluniau wedi oedi oherwydd rheoliadau gwleidyddol Cyfnod Cyn Etholiad: Etholiad Senedd Cymru, gan obeithio bydd y prosiectau hynny yn weithredol cyn gynted â phosib.

Rhannwyd bod 10 prosiect wedi cael eu cymeradwyo ond nad ydynt yn weithredol ar hyn o bryd. Sicrhawyd y disgwylir i'r mwyafrif o'r prosiectau hynny fod yn weithredol o fewn chwe mis.

Nodwyd hefyd bod Achosion Busnes Amlinellol yn cael eu datblygu ar gyfer 8 prosiect Cyfeiriwyd at un prosiect sydd yn parhau i adrodd yn goch ar hyn o bryd, ac o dan adolygiad o'r herwydd, sef Hwb Hydrogen Caergybi. Mynegwyd balchder bod yr Achos Busnes Amlinellol wedi cael ei ddatblygu ac yn cael ei asesu ar y cyd gyda chynghorwyr allanol.

Manylwyd ar Gofrestr Risg y Portffolio gan gadarnhau bod y risgiau gweddilliol ar gyfer 'fforddiadwyedd' a 'newid gwleidyddol' wedi cael eu cynyddu yn ddiweddar yn dilyn y rhyfel yn y dwyrain canol yn ogystal â'r angen i gychwyn cydweithio gydag aelodau newydd o'r Senedd yn dilyn yr etholiad.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Trafodwyd risgiau Fforddiadwyedd presennol yn dilyn y rhyfel yn y dwyrain canol. Tynnwyd sylw bod yr hinsawdd economaidd wedi diwygio'n sylweddol ers 2020, pan gytunwyd ar Gytundeb Ariannol ar gyfer y Cynllun Twf. Mewn ymateb i ymholiad ar y trafodaethau sydd ar y gweill gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r 'allbynnau disgwyliedig', cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Portffolio bod swyddogion wedi bod yn cyfathrebu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r Prif Weithredwyr Cynghorau'r rhanbarth, er mwyn cynllunio dogfen yn amlygu'r sefyllfa bresennol a pharatoi i'r dyfodol. Eglurwyd ei fod yn hanfodol i sicrhau bod gweithdrefnau i'r dyfodol yn cael eu cynllunio yn ofalus i sicrhau bod unrhyw gynlluniau sy'n mynd i'r afael a'r cynnydd i gostau a fforddiadwyedd ddim yn cael eu niweidio drwy ddatblygiadau pellach i'r rhyfel. Cadarnhawyd nad oes unrhyw drafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r Llywodraethau ar hyn o bryd, gan nodi bod swyddogion yn paratoi amdanynt. Rhannwyd dymuniadau i'r trafodaethau gael eu cynnal cyn gynted a bod modd. Ychwanegodd Sylwedydd Llywodraeth Cymru bod y Llywodraeth yn barod i gynnal y trafodaethau hyn gyda swyddogion ac yn eiddgar i chwilio am ddatrysiadau.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am fanylder y data ar draws y rhanbarth. Rhannodd rai aelodau'r dyhead i dderbyn data pellach fesul siroedd y rhanbarth i'r dyfodol, er mwyn gallu cyfiawnhau'r buddsoddiad ymhellach gyda'u cyd-aelodau lleol, o'r arian cyhoeddus. Cydnabuwyd bod adrodd ar y math hwn o ddata yn gallu bod yn heriol gan fod rhai prosiectau yn fanteisiol i siroedd cyfagos a'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd, er ei bod wedi ei leoli mewn sir arall. Fodd bynnag, ystyriwyd byddai derbyn gwybodaeth o'r math yma yn annog siroedd unigol i ganfod cyfleoedd datblygol a masnachol o'r newydd, tra hefyd yn gweithio tuag at y prif dargedau rhanbarthol. Mewn ymateb i'r sylwadau, adroddodd y Cyfarwyddwr Portffolio nad yw'r math yma o wybodaeth wedi cael ei gyflwyno o fewn y math hwn o adroddiad yn y gorffennol, fodd bynnag, bydd swyddogion yn cysylltu gydag aelodau er mwyn derbyn argymhellion am y wybodaeth y dymunir ei dderbyn o fewn yr adroddiadau chwarterol yma i'r dyfodol oherwydd bydd yr adroddiad nesaf yn adlewyrchu chwarter cyntaf y flwyddyn 2026/27. Cynhaliwyd trafodaeth ar y mater hwn ble cyflwynwyd nifer o safbwyntiau o blaid ac yn erbyn cynnwys y wybodaeth yma o fewn yr adroddiadau i'r dyfodol gan gynnwys materion poblogaeth, trafnidiaeth a manteision traws-sirol.

Ystyriwyd bod yr adroddiad yn gadarnhaol iawn gan nodi ei fod yn hanfodol i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r llwyddiannau hyn. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y

Cyfarwyddwr Portffolio bod llawer o gyfleoedd i hysbysu'r cyhoedd o'r llwyddiannau, drwy ddatganiadau i'r wasg a digwyddiadau sydd eisoes ar y gweill, gan bwysleisio nad oedd modd gwneud hynny yn yr wythnosau diwethaf oherwydd rheoliadau Cyfnod Cyn Etholiad, Etholiad Senedd Cymru.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**6. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER 2025/26**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cynorthwyol Cyllid

**PENDERFYNIAD**

- **Nodi sefyllfa alldro'r Cynllun Twf ar gyfer 2025/26 gan nodi, oherwydd tanwariant, peidio â defnyddio £60,990 o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi, a defnyddio swm llai o £867,731 o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru, i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.**

- **Nodi sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf.**

- **Nodi adolygiad cyfalaf diwedd flwyddyn y Cynllun Twf ar 31 Mawrth 2026.**

- **Nodi sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi ar gyfer 2025/26.**

- **Nodi sefyllfa alldro y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2025/26.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Hysbysu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd am sefyllfa ariannol y Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol), y Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2025/26.

**TRAFODAETH**

Tywyswyd yr aelodau drwy sefyllfa refeniw a chyfalaf ar gyfer y Cynllun Twf, Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.

<u>Sefyllfa Alldro Net Terfynol</u>
Adroddwyd bod tanwariant o £543,000 o fewn y sefyllfa alldro net terfynol, gyda'r prif danwariant yn deillio o bennawd 'gweithwyr'. Ymhelaethwyd bod oddeutu £90,000 o'r tanwariant hwn yn deillio o staff sydd yn gweithio cyfran o'u hamser ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig, £39,000 yn ymwneud a staff sy'n gweithio ar y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a £156,000 yn ymwneud â staff a ariannwyd gan brosiectau'r Cynllun Twf. Cadarnhawyd bod swyddi gwag wedi arwain at danwariant o oddeutu £255,000.

Nodwyd hefyd bod tanwariant yn erbyn pennawd 'rolau llywodraeth ychwanegol' oherwydd, er bod penodiadau wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn, eglurwyd eu bod yn cael eu hariannu o'r Gronfa Adnoddau ac felly bu i gyllideb y gronfa honno gael ei haddasu i gyfateb â'r tanwariant. Cyfeiriwyd hefyd at danwariant o £181,000 ar y gwariant cefnogol i brosiectau.

Amlygwyd mai prif ffrydiau incwm ar gyfer y flwyddyn oedd: cyfraniadau partneriaid, grant Cynllun Twf Gogledd Cymru, grant ynni Llywodraeth Cymru, y Gronfa Ffyniant Gyffredin, y

gronfa Wrth Gefn a’r Gronfa Adnoddau. Atgoffwyd mai cyfraniadau partneriaid yw’r unig ffynhonnell ariannu barhaol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'u bod yn gyfanswm o 20% o’r gyllideb lawn. Adroddwyd bod y cyfraniadau gan bartneriaid wedi eu cymeradwyo fel rhan o’r Cytundeb Cyflawni ac Ariannu gan yr holl bartneriaid perthnasol.

Cyfeiriwyd at ffynonellau ariannu tymor byr megis y Grant Cynllun Twf. Eglurwyd bod hanner yr arian a dderbyniwyd fel rhan o’r grant hwnnw wedi cael ei ddynodi i wariant refeniw, gan nodi ei fod eisoes wedi cael ei ddefnyddio ym mhum mlynedd gyntaf y rhaglen - gyda 10 mlynedd yn weddill. Pwysleisiwyd pwysigrwydd amrywiaeth ffynonellau ariannu i’r dyfodol.

Ystyriwyd defnyddio’r tanwariant hwn er mwyn gadael sefyllfa niwtral ar ddiwedd y flwyddyn. Nodwyd byddai modd gwneud hyn drwy leihau cyfraniad o’r grant Cynllun Twf o £1,350,000 i oddeutu £868,000 ac i beidio defnyddio £61,000 o’r gronfa Wrth Gefn. Eglurwyd byddai’r ffynonellau hyn yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant o fewn y blynyddoedd dilynol ac yn lleihau’r risg o’r angen i gynyddu cyfraniadau partneriaid yn y dyfodol agos.

<u>Cronfeydd</u>
Adroddwyd ar y symudiad o fewn cronfeydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys balansau’r cronfeydd hynny ar 31 Mawrth 2026.

Atgoffwyd bod Cronfa Llog gwerth oddeutu £5miliwn wedi’i neilltuo er mwyn ariannu costau benthyca yn y blynyddoedd nesaf, gan nodi bod y balans hwn wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo costau benthyca'r partneriaid yng nghyllideb y flwyddyn ariannol 2026/27.

Cadarnhawyd bod balans y Gronfa Adnoddau yn £4.4miliwn ar 31 Mawrth 2026, gan adrodd bod oddeutu £1miliwn wedi ei glustnodi i’w ddefnyddio yng nghyllideb 2026/27.

<u>Sefyllfa Cyfalaf Terfynol y Cynllun Twf</u>
Adroddwyd bod £30.64miliwn o wariant wedi ei wneud ar y Cynllun Twf erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2025/26. Nodwyd bod hyn yn ostyngiad net o £14.28miliwn o’i gymharu â’r gyllideb a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2025, yn dilyn llithriad ar brosiectau. Er hyn, nodwyd bod y gwariant ar brosiect Cydnerth wedi ei wneud yn gynt na ragdybiwyd, gyda £8.87miliwn yn arddangos yng ngwariant 2025/26 yn hytrach na rhwng dwy flwyddyn ariannol fel y proffiliwyd yn wreiddiol. Cadarnhawyd bod cyllideb y Cynllun Twf a ddynodwyd ar gyfer gwariant refeniw yn 2025/26 wedi cael ei ostwng i £0.87miliwn er mwyn adlewyrchu ffigyrau’r alldro refeniw terfynol.

<u>Gwariant ac Incwm gwirioneddol y Parth Buddsoddi</u>
Eglurwyd bod oddeutu £323,000 o wariant wedi ei nodi yn erbyn Cyngor Sir y Fflint a Wrecsam ar y ddogfennaeth, ond yn dilyn gwybodaeth fwy diweddar, cadarnhawyd bydd y ffigwr hwn yn cael ei addasu i £230,000 erbyn i’r wybodaeth gael ei gyflwyno’n derfynol am gymeradwyaeth. Soniwyd bod y ffigwr gwreiddiol yn cynnwys £93,000 o ymrwymiadau a fyddai’n cael ei arddangos fel rhan o wariant 2026/27. Ymhelaethwyd bydd swm y Grant Parth Buddsoddi a ddefnyddir hefyd yn cael ei addasu i adlewyrchu hyn, fel na fyddai’n cael effaith ar sefyllfa net y flwyddyn.

<u>Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol</u>
Cadarnhawyd bod sefyllfa ariannol y bartneriaeth yn dangos sefyllfa niwtral am y flwyddyn, gan fod grant o £290,000 yn cael ei ariannu gan arian grant Llywodraeth Cymru.

Cadarnhawyd bydd y wybodaeth a gyflwynwyd o fewn yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i’r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 04 Mehefin cyn ennyn cymeradwyaeth terfynol gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 19 Mehefin.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol bod tanwariant yn parhau mewn gwirionedd, er bod modd cadarnhau sefyllfa niwtral ar falansau 2025/26. Fodd bynnag, nodwyd bod y tanwariant hwn o £543,000 yn galluogi'r ffynonellau ariannol a nodwyd o fewn yr adroddiad i barhau i fod ar gael i'r dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## 7. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – CRONFA CHWYDDIANT COSTAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio.

### PENDERFYNIAD

**Cytuno i sefydlu Cronfa Chwyddiant Costau ar gyfer 2026/27 a darparu £3.96m o gyllid y Cynllun Twf i'r gronfa wrth gefn i'w gychwyn.**

**Cymeradwyo'r meini prawf ar gyfer y Gronfa Chwyddiant Costau a'r matrics penderfyniadau a dirprwyedig.**

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cynnig sefydlu Cronfa Chwyddiant Costau i gefnogi prosiectau cymeradwy (cymeradwyaeth Achos Cyfiawnhad Busnes) neu Achos Busnes Llawn) gyda chostau uwch na ellir eu lliniaru, er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni yn ystod 2026/27. Byddai £3.96 cychwynnol yn cael ei ddyrannu i'r Gronfa Chwyddiant Costau (i'w adolygu ymhen chwe mis) gan adael £28m o gyllid heb ei ddyrannu ar gael i brosiectau'r Rhestr Wrth Gefn.

### TRAFODAETH

Eglurwyd mai diben yr adroddiad yw sefydlu Cronfa Chwyddiant Costau er mwyn cynorthwyo datblygiad prosiectau drwy gydol y flwyddyn ariannol, yn dilyn heriau fforddiadwyedd fel y nodwyd yn gynharach o fewn y cyfarfod hwn. Ystyriwyd byddai sefydlu'r gronfa hon yn sicrhau bod modd parhau gyda graddfa ddatblygol prosiectau a sicrhau momentwm i'r dyfodol wrth i fwy o Achosion Busnes gael eu cymeradwyo. Nodwyd bod sefydlu'r gronfa hon yn deillio o brofiadau a gafwyd pan fu oediad ym mhrosiectau yn dilyn y rhyfel yn Wcráin, ac i atal yr oediad hynny yn y dyfodol.

Cynigiwyd dyrannu £3.96miliwn o gyllideb sydd heb ei ddyrannu o'r Gronfa Wrth Gefn, i sefydlu'r gronfa, gan sicrhau y byddai hyn yn cael ei adolygu ymhen chwe mis. Pwysleisiwyd byddai £28miliwn yn parhau i fod ar gael ar gyfer y Rhestr Wrth Gefn.

Cadarnhawyd byddai meini prawf penodol yn cael ei ddefnyddio er mwyn canfod os yw prosiectau yn gymwys am gyllideb. Nodwyd bod y gronfa yn targedu prosiectau sydd eisoes wedi datblygu'n rhannol, gyda chyfnodau caffael wedi ei gwblhau a bod cyflenwr wedi cael ei adnabod. Ymhelaethwyd y disgwylir bod trafodaethau gyda chyflenwyr er mwyn lleihau costau yn angenrheidiol ble'n bosib er mwyn bod yn gymwys ar gyfer arian o'r gronfa. Pwysleisiwyd bod angen i unrhyw ddyraniad o'r gronfa i brosiect arwain yn uniongyrchol at lwyddiant y prosiect hwnnw i fod yn weithredol.

Adroddwyd byddai cyfraniad y Cynllun Twf tuag at y cyllid ychwanegol yn cael ei gapio ar gyfradd ganrannol yr ymyrraeth bresennol, pan fo'r Cynllun Twf yn ariannwr lleiafrifol ar y prosiect. Yn wahanol, mewn achosion ble mai'r Cynllun Twf yw'r prif ariannwr ar gyfer y

prosiect, bydd cyfraniad y Cynllun Twf tuag at gyllid ychwanegol o'r gronfa hon yn cael ei gyfyngu i 50% o'r cyllid ychwanegol sydd ei angen. Pwysleisiwyd bod y cyfyngiadau hyn wedi bod yn werthfawr iawn yn y gorffennol er mwyn sicrhau bod costau prosiectau yn cael eu rhannu gyda noddwyr prosiect ac yn fodd llwyddiannus o sicrhau bod prosiectau yn datblygu'n effeithiol.

Eglurwyd y byddai gweithdrefnau mewn lle i ddirprwyo penderfyniadau ar wariant y gronfa i swyddogion, mewn cydweithrediad gyda'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a swyddogion statudol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Pryderwyd byddai'r defnydd o'r gronfa hon yn arwain at ymestyn prosiectau ble fyddai posibilrwydd y byddent yn cael eu gwrthod o fewn hinsawdd economaidd well, gan nodi byddai hynny yn disodli cyllidebau o'r prosiectau hynny ble mae sicrwydd y byddent yn dod yn weithredol. Nodwyd bod angen rheoli risgiau er mwyn sicrhau nad oes arian yn cael ei wastraffu.

Derbyniwyd sylwadau gan yr Ymgynghorydd Anweithredol a amlygwyd bod gweithredu yn gyflym mewn adegau ble mae'r hinsawdd economaidd yn heriol, gan fod chwyddiant costau yn digwydd yn raddol dros amser, a byddai gweithredu'n gyflym yn negydu ei effeithiau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**8. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM: PROSIECTAU RHAGLEN ARLOESI CYCHWYNNOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Rhaglen Parth Buddsoddi

**PENDERFYNIAD**

1. **Nodi'r cynnydd o ran sefydlu a gweithredu'r rhaglen Arloesi Parth Buddsoddi mewn partneriaeth agos â Phrifysgol Wrecsam, AMRC, Prifysgol Bangor a Diwydiant Sero Net Cymru.**

2. **Nodi'r broses ar gyfer datblygu'r prosiectau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn a'u bod wedi'u cytuno fel prosiectau arloesi addas ar gyfer y Parth Buddsoddi i'w cefnogi gan Fwrdd Arloesi Gogledd Cymru.**

3. **Cymeradwyo'r cynnig prosiect a gyflwynwyd gan Brifysgol Wrecsam gwrth £3,645,364 a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a phrifysgol Wrecsam.**

4. **Cymeradwyo'r cynnig prosiect a gyflwynwyd gan Brifysgol Bangor gwerth £1,300,000 a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Phrifysgol Bangor sy'n adlewyrchu'n benodol gytundeb i weithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o Adolygiad Prosiect Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd o Brosiect Canolfan Prosesu Signalau Digidol y Cynllun Twf.**

5. **Cymeradwyo'r cynnig prosiect a gyflwynwyd gan Ddiwydiant Sero Net Cymru gwerth £260,000 a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Diwydiant Sero Net Cymru ar ran y Bartneriaeth Datgarboneiddio Ddiwydiannol lleol (gan gynnwys NEWID a Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy).**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer y tri phrosiect cyntaf o fewn Rhaglen Arloesi Parth Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r prosiectau hyn yn cyd-fynd a'r prosiectau arloesi newydd a gefnogir gan y Parth Buddsoddi, sydd ar y gweill ar hyn o bryd gydag AMRC a BIC Innovation, i greu Rhaglen Arloesi Parth Buddsoddi ac archwilio dichonoldeb Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol Cymru yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod tri prosiect wedi cael eu datblygu ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam a phrosiectau er mwyn cysylltu cwmnïau masnachol gyda ffynonellau ymchwil ac arloesol er mwyn rhoi cymorth iddyn nhw adnabod eu heriau, ehangu cysylltiadau ac i annog tyfiant arloesol o'u cwmnïau.

Cadarnhawyd bod y prosiectau hyn yn cynnwys prosiect Prifysgol Wrecsam, sydd wedi bod dan ofal y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru. Eglurwyd ei fod yn brosiect arloesol i alluogi'r brifysgol i ddarparu cymorth ac ymchwil i gwmnïau, heb gronni costau.

Cyfeiriwyd at brosiect gan Brifysgol Bangor sydd yn annog cwmnïau i gyfarch eu heriau data a chysylltedd. Nodwyd bydd y prosiect hwn yn arwain ar y dulliau gorau o wella cysylltedd ar draws y rhanbarth. Eglurwyd bod y prosiect hwn yn caniatáu'r amser i gwmnïau gynnal cyfarfodydd gyda'r brifysgol er mwyn deall unrhyw drafferthion presennol a chydweithio i'r dyfodol i'w datrys.

Adroddwyd mai'r trydydd prosiect yw prosiect Diwydiant Sero Net Cymru, sydd yn cefnogi busnesau gyda gweithdrefnau i sicrhau lleihad i allyriadau carbon a chynlluniau i fod yn sero net carbon.

Cadarnhawyd bod gwybodaeth fanwl am y prosiectau i'w cael o fewn yr adroddiad, gyda cheisiadau a gwybodaeth bellach i'w gweld yn yr atodiadau. Pwysleisiwyd bod yr atodiadau hynny yn eithriedig er sylw'r Aelodau yn unig oherwydd eu bod yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Cynigodd y Cadeirydd y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Er bod diddordeb y cyhoedd mewn tryloywder ac atebolrwydd, mae hyn yn cael ei orbwyso ar hyn o bryd gan yr angen i ddiogelu gwybodaeth fasnachol sensitif o ystyried y byddai datgelu yn debygol o ragfarnu trafodaethau parhaus a gallu'r awdurdod i sicrhau'r gwerth gorau a diogelu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

**Pleidleisiwyd ar y cynnig i gau allan y wasg a'r cyhoedd a bu i'r Cynghorydd Nia Jeffreys atal ei phleidlais ar yr eitem hon.**

**10. DYFODOL VENUE CYMRU – CAIS AM NEWID AC ACHOS BUSNES AMLINELLOL WEDI'I DDIWEDDARU: MAWRTH 2026**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio a Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo'r cais am newid a'r Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddiweddaru ar gyfer Venue Cymru, gan roi chwe mis ychwanegol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fynd i'r afael â'r materion sy'n weddill, a chyflwyno Achos Busnes Llawn er ystyriaeth gan yr Is-bwyllgor.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae ceisiadau am newidiadau i brosiectau gan Arianwyr Prosiectau yn faterion i'r Is-bwyllgor eu penderfynu.

Bydd cymeradwyo'r Cais am Newid yn galluogi i brosiect Dyfodol Venue Cymru fwrw ymlaen gydag amserlen realistig, y mae modd ei chyflawni, sy'n cyd-fynd â'r cyllid sydd wedi'i gadarnhau, cyfyngiadau gweithredol a'r cyngor cyflawni arfer gorau, tra'n diogelu'r buddion hirdymor.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

**11. HWB ECONOMI WLEDIG GLYNLLIFON: ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES AR GYFER DATBLYGIAD LLAETH CYNALIADWY - DIWEDDARIAD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodi'r cynnydd a'r materion sy'n weddill ers cymeradwyaeth yr Achos Cyfiawnhad Busnes ym Mawrth 2026.**

2. **Ail-gadarnhau cymeradwyaeth o'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer yr Elfen Datblygiad Llaeth Cynaliadwy o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Grŵp Llandrillo Menai yn ymdrin â'r materion a nodir yn yr adroddiad a'n sicrhau'r holl gymeradwyaethau mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.**

3. **Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 i gytuno a chadarnhau'r materion sy'n weddill yn yr adroddiad cyn i'r cyllid gael ei ryddhau. Os bydd yna**

**ddisgwyliad i ail gaffael y prosiect yna bydd yr Achos Cyfiawnhad Busnes yn cael ei ail gyflwyno i'w ystyried.**

4. **Nodi bod cytundeb ariannu eisoes wedi'i wneud gyda Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon yn dilyn cymeradwyaeth Achos Cyfiawnhad Busnes Llaeth Defaid Cymru, ac y bydd y cytundeb hwn yn cynnwys y broses o gyflawni'r elfen hon o'r prosiect ehangach os bydd yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes hwn.**

5. **Nodi y bydd un cymeradwyaeth Achos Busnes arall i gyflawni'r elfennau sy'n weddill o brosiect**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Elfen Datblygiad Llaeth Cynaliadwy Prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

**12. CAIS I YMESTYN Y CYFNOD DILYSRWYDD AR GYFER TRI PHROSIECT RHAGLEN TIR AC EIDDO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio, yn absenoldeb Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo'r cais i ymestyn y Cyfnod Dilysrwydd i gwblhau'r Cytundebau Cyllid Grant o dri mis ar gyfer y prosiectau Tir ac Eiddo a ganlyn:**

| Enw'r Prosiect | Dyddiad cymeradwyo Is-bwyllgor Lles Economaidd | Dyddiad adolygu 6 mis | Dyddiad adolygu diwygiedig |
|---|---|---|---|
| Achos Cyfiawnhad Busnes + Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn | 3 Hydref 2025 | 2 Ebrill 2026 | 1 Gorffennaf 2026 |
| Achos Cyfiawnhad Busnes + Porth y Porthladd Rhydd | 3 Hydref 2025 | 2 Ebrill 2026 | 1 Gorffennaf 2026 |
| Achos Cyfiawnhad Busnes + Porthladd Mostyn | 5 Rhagfyr 2025 | 4 Mehefin 2026 | 3 Medi 2026 |

**Nodi, os nad yw'r Cytundebau Cyllid Grant perthnasol wedi'u cwblhau erbyn y dyddiadau adolygu diwygiedig, y bydd angen i'r achos busnes perthnasol gael ei ail gyflwyno i'r Is-bwyllgor i'w ystyried a'i gymeradwyo ymhellach.**

**Cadarnhau bod y Cyfarwyddwr Portffolio yn cael ei awdurdodi i gymryd yr holl gamau gweithredol angenrheidiol i fwrw ymlaen a chwblhau'r Cytundebau Cyllid Grant o fewn y Cyfnodau Dilysrwydd estynedig, yn amodol ar y gofynion cyfreithiol, ariannol, caffael a llywodraethu arferol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i ymestyn y dyddiad adolygu ar gyfer y Cytundeb Cyllid Grant o dri mis oherwydd  y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 11:20.

________________________________________

Cadeirydd